



Companies House
Tŷ'r Cwmnïau

Adroddiad Monitro Blynyddol

Cynllun Iaith Gymraeg

1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019

ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL TŶ'R CWMNIAU

1 EBRILL 2019 – 31 MAWRTH 2020

1. Cyflwyniad

Paratowyd Cynllun Iaith Gymraeg Tŷ'r Cwmnïau yn unol ag adran 21(3) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg a chafodd gymeradwyaeth lawn Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar 20 Ebrill 2010.

Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020.

John-Mark Frost, sef Cyfarwyddwr Gweithrediadau, sy'n gyfrifol am weithrediad y Cynllun Iaith yn Nhŷ'r Cwmnïau. Fe'i cynorthwyr yn hynny o beth gan bwyllgor sy'n cyfarfod yn gyson i fonitro cynnydd a pherfformiad, ynghyd â thîm o siaradwyr Cymraeg y gall ymgynghori â nhw ar faterion pob dydd.

2. Dehongliad

"TC" yw Tŷ'r Cwmnïau

"Deddf 2006" yw Deddf Cwmnïau 2006

"y Cofrestrydd" yw'r Cofrestrydd Cwmnïau

"PAC" yw Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig

"PC" yw Partneriaeth Cyfyngedig

Ystyr "cwmni/PAC Cymreig" yw cwmni neu PAC, yn ôl diffiniad adran 88 o Ddeddf 2006 (fel y'u cymhwysir i PAC), sydd wedi hysbysu'r Cofrestrydd y lleolir ei swyddfa gofrestredig yng Nghymru. Adeg corffori, rhaid i gwmni ddweud a yw'n bwriadu lleoli ei swyddfa gofrestredig yng Nghymru, Lloegr a Chymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon. Rhaid i gyfeiriad swyddfa gofrestredig y cwmni fod yn y wlad y maent wedi datgan y lleolir ei swyddfa gofrestredig ynddi.

Caiff cwmni Cymreig dewis o dan Ddeddf Cwmnïau 2006 cael enw Cymraeg a therfyniad enw Cymraeg (h.y. cyfyngedig, cwmni cyfyngedig cyhoeddus) a chaiff ffeilio dogfennau statudol yn Gymraeg. Gall cwmni Lloegr a Chymru fod â chyfeiriad ei swyddfa gofrestredig yng Nghymru neu Lloegr, ond ni all y cwmni gael enw Cymraeg na therfyniad enw Cymraeg, ac ni chaiff ffeilio dogfennau statudol yn Gymraeg.

Cyflawniadau

- 2.1 Yn ystod y cyfnod adrodd cyfredol mae TC wedi adeiladu ar yr amgylchedd o drawsnewid a diwygio a welwyd yn 2018-19. Yn ystod y cyfnod eithriadol o brysur yma, adeiladodd y sefydliad ar ei waith i gyflawni newidiadau sylfaenol i'r ffordd y mae'n gweithredu ac yn cyfrannu at feithrin hyder yn economi'r DU.
- 2.2 Rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda chydweithwyr ar draws y llywodraeth i baratoi ar gyfer y diwygiadau deddfwriaethol sydd ar y gweill, ac ar gyfer symud TC o fod yn gronfa fasnachu i fod yn rhan o'r llywodraeth ganolog o fewn yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ar 1 Ebrill 2020.
- 2.3 Mae ymrwymiad parhaus TC i ddarparu gwasanaeth o safon uchel ar gyfer ein cwsmeriaid trwy'r Gymraeg wedi bod yn ystyriaeth bwysig ar bob cam y broses yma. Trwy adeiladu ar ganfyddiadau ein hadolygiad mewnol, a thrwy weithio gydag adrannau ac asiantaethau gweithredol eraill, rydyn ni wedi datblygu cynigion interim i ffurfio Uned Iaith Gymraeg benodol o fewn TC. Disgwylir cychwyn recriwtio i Uned y Gymraeg yn haf 2020.

3. Cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg

Mae TC wedi ymrwymo o hyd i gydymffurfio â'i Gynllun Iaith Gymraeg, a rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020, cyflawnodd y canlynol:

- 3.1 Cyfarfu Pwyllgor Cymraeg TC bob yn ail fis er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Chynllun Iaith TC ac adolygu cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu, sydd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn. Hefyd cynhaliwyd cyfarfodydd gwasanaeth Cymraeg i ystyried y gwasanaeth a gynigir i gwsmeriaid Cymraeg eu hiaith.
- 3.2 Parhaodd tîm o siaradwyr Cymraeg o wahanol fannau yn Nhŷ'r Cwmnïau i ymateb i ymholiadau cwsmeriaid. Yn ystod y cyfnod, cafodd ein Canolfan Gysylltu 11 o alwadau Cymraeg, a chawsant 18 e-bost yn y Gymraeg.
- 3.3 Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, cysylltodd 24 o gwsmeriaid oedd yn siarad Cymraeg â TC yn uniongyrchol i godi ymholiadau cyffredinol, gan gynnwys:
 - Cymorth i ddiwygio erthyglau a newid cyfeiriad, ac i gywiro manylion cofnodion cenedligrwydd oedd yn anghywir ar y rhestr
 - Cadarnhau bod dogfennau wedi dod i law, a gofyn am gymorth i ffeilio dogfennau
 - Cadarnhad ynghylch sut i newid manylion cyfarwyddwr ar ddatganiad cadarnhau
 - Eglurhad ar ddefnyddio enwau sensitif mewn enw cwmni
 - Cymorth wrth ddiddymu cwmni

- 3.4 Cawsom 5 o ymholiadau cyffredinol hefyd oedd yn cwestiynu lefel y gwasanaethau Cymraeg a ddarperir, er na ddaeth unrhyw gwynion i law. Roedd y rhain yn ymwneud â'r canlynol:
- Oedi gyda chorfforiad dwyieithog am y bu camgymeriad wrth brosesu'r ffurflen
 - Cais i gyfieithu neges e-bost a gafodd ei chyfeirio'n anghywir cyn cael ei gweithredu
 - Cwsmer yn cofnodi "addewid i ffeilio" a fu'n destun oedi wedyn
 - Torri diogelwch data am y rhoddwyd y manylion anghywir ar lythyr cod awdurdodi yn y Gymraeg
 - Roedd angen i'r Ysgrifennydd Gwladol gymeradwyo enw cwmni. Rhoddwyd caniatâd, ond cododd problem a achosodd oedi wrth anfon y llythyr dwyieithog
- 3.5 Cynorthwyodd TC gymeriad blaenllaw yn y gymuned grefyddol Gymraeg i ffurfio cwmni buddiant cymunedol. Roedd hyn yn gofyn am gymorth penodol gan aelod o staff, a dywysodd y cwsmer trwy'r broses ymgeisio yn Gymraeg nes corffori'r cwmni'n llwyddiannus. Rhoddodd y cwsmer ganmoliaeth i'r aelod o staff am ei broffesiynoliaeth a'i ymroddiad.
- 3.6 Daliwyd ati i sicrhau bod y ffurflenni sy'n cael eu ffeilio'n fwyaf cyffredin ar gael yn ddwyieithog, ar bapur ac yn electronig.
- 3.7 Rydym yn dal ati i adolygu canllawiau TC i sicrhau bod canllawiau perthnasol sy'n cael eu llunio gan TC ar gael yn ddwyieithog, ac eithrio'r rhai penodol nad ydynt yn berthnasol i Gwmnïau Cymreig (e.e. canllawiau ar faterion sy'n effeithio ar gwmnïau yr Alban yn unig).
- 3.8 Mae cwsmeriaid sy'n gohebu â TC yn Gymraeg yn cael ateb yn Gymraeg. Yn ogystal, gall cwmnïau gofrestru eu dewis iaith ar gyfer gohebiaeth flynyddol trwy gysylltu â TC. Hysbysebiri y cyfleuster hwn ar GOV.UK.
- 3.9 Cyfieithwyd pob set o gyfrifon Cymraeg a dderbyniwyd gan gwmnïau Cymraeg i'r Saesneg ar gyfer y cofnod cyhoeddus, fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith. Yn ogystal, gwnaethom barhau i gyfieithu gohebiaeth i'r Gymraeg i fodloni gofynion ein Cynllun Iaith. Roedd hyn yn cynnwys llythyrau, canllawiau, a gwaith prosiect, ar gyfer y wefan a'r gwasanaethau ar-lein.
- 3.10 Roedd yr holl gontractau a gyhoeddwyd yn cynnwys cymal i sicrhau bod ein partneriaid gwasanaethu'n cydymffurfio â rhwymedigaethau TC o ran y Gymraeg.
- 3.11 Parhaodd TC ati i gyfrannu at Bwyllgor CALL rhyngadrannol Llywodraeth y DU. Roedd y pwyllgor yn tynnu cynrychiolwyr o Unedau Cymraeg amrywiol adrannau Llywodraeth y DU ynghyd yn rheolaidd, ac roedd yn fforwm delfrydol i rannu arferion gorau ac i ddod o hyd i atebion er mwyn gwella ein gwasanaethau Cymraeg gyda golwg ar sicrhau dull mwy safonol o weithredu ar draws y

Ilywodraeth. Darparodd cydweithwyr o'r Pwyllgor CALL gymorth i sefydlu'r Uned y Gymraeg yn TC.

4. Prif-ffrydio'r Gymraeg

Ystyriodd TC y Gymraeg yn y ffyrdd canlynol:

- 4.1 Parhaodd y sefydliad i ystyried ein gwasanaethau Cymraeg ar gam cynnar ym mhob prosiect trwy gynnwys y Gymraeg yn rhestrau cyfeirio'r holl reolwyr prosiect ac mewn cynlluniau datblygu eraill.
- 4.2 Rhoesom flaenoriaeth i'n cynnwys GOV.UK Cymraeg dros y flwyddyn ddiwethaf. Cyfieithwyd pob adran o'n tudalen hafan yr oedd modd ei chyfieithu i'r Gymraeg. Cyfieithwyd ein tudalennau gwybodaeth corfforaethol hefyd.
- 4.3 Fe gyfieithon ni'r rhan fwyaf o'n tudalennau canllaw a'n straeon newyddion dros y flwyddyn ddiwethaf.
- 4.4 Fe gyhoeddod ni stori newyddion am ein gwasanaethau Cymraeg yn Chwefror 2020:
 - <https://www.gov.uk/government/news/welsh-language-services-available-at-companies-house>
- 4.5 Parhawyd i gynyddu nifer y negeseuon Cymraeg sy'n cael eu rhannu ar ein cyfrif Twitter corfforaethol, sydd â dros 20,000 o ddilynwyr erbyn hyn. Yn 2019/20, ein nod oedd postio o leiaf un neges drydar yr wythnos yn Gymraeg. Roedd y negeseuon hyn yn tynnu sylw at ein cynnwys Cymraeg gan gynnwys fideos, canllawiau ar-lein a'n blogbost gyntaf yn y Gymraeg.
- 4.6 Postiwyd neges drydar Gymraeg yn Ebrill 2019 i ddweud y byddai'r swyddfa ar gau dros ŵyl banc y Pasg, gyda dolen i'n tudalen mynediad swyddfa agored Gymraeg ar GOV.UK. Denodd y neges hon dros 10,000 o argraffiadau, sy'n uwch na'r cyfartaledd.
- 4.7 Rhannwyd dau bost graffeg Cymraeg i ategu ein hymgyrch hynod lwyddiannus i recriwtio prentisiaid digidol ym mis Medi 2019.
- 4.8 Postiwyd ein cynnwys Cymraeg cyntaf ar Facebook i ddathlu Dydd Miwsig Cymru yn Chwefror 2020 a Dydd Gŵyl Dewi ym mis Mawrth 2020.
- 4.9 Diweddarwyd ein bywgraffiad Twitter i annog y cyhoedd i ofyn cwestiynau yn Gymraeg.
- 4.10 Cyhoeddwyd ein blogbost gyntaf yn Gymraeg i ddathlu Dydd Miwsig Cymru yn Chwefror 2020:
 - <https://companieshouse.blog.gov.uk/2020/02/07/dathlu-diwylliant-cymru-trwy-gerddoriaeth/>

5. Dangosyddion perfformiad

- 5.1 Yn ystod y cyfnod adrodd, corfforwyd 6,351 o gwmnïau Cymreig a 30 PAC ag awdurdodaeth Gymreig. Roedd cyfanswm o 665,495 o gwmnïau a 4,909 o PACau wedi eu corffori yn ystod y cyfnod hwn
- 5.2 Erbyn diwedd y cyfnod adrodd, roedd yna 26,014 o gwmnïau Cymreig a 155 o PACau Cymreig ar y gofrestr, o'u cymharu â chyfanswm o 4,350,913 o gwmnïau a bron 51,153 PAC.
- 5.3 Erbyn diwedd y cyfnod adrodd, roedd yna 1,432 o gwmnïau Cymreig ac 7 PAC Cymreig ar y gofrestr oedd wedi eu corffori â therfyniad enw Cymraeg. Cafodd 233 o gwmnïau Cymreig a 2 PAC Cymreig eu corffori â therfyniad enw Cymraeg yn 2019/20.

6. Gwasanaethau'r Rheng Flaen

Canran a nifer y staff dwyieithog:

Canolfan Gyswllt TC

- 6.1 Yn ystod y rhan fwyaf o'r cyfnod adrodd, roedd dau aelod o staff amser llawn yn y Ganolfan Gysylltu. Mae gofyniad contractiol i ddarparu gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae unrhyw ymdrechion i recriwtio'n nodi bod y Gymraeg yn ddymunol. Mae yna ymarferion recriwtio parhaus.
- 6.2 Os oes cwsmer yn gofyn yn benodol am gael siarad â siaradwr Cymraeg, ond nad oes un ar gael, rydyn ni'n cynnig y dewis i'r cwsmer o barhau â'r sgwrs yn Saesneg, neu ofyn am rif ffôn i gysylltu â'r cwsmer fel bod siaradwr Cymraeg yn gallu cysylltu â nhw'n uniongyrchol yn unol â'n Cynllun Iaith Gymraeg.
- 6.3 Hefyd mae gan TC grŵp dynodedig a all ymateb i ymholiadau sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Caiff holl aelodau'r staff wybod am hyn drwy ein cyfathrebiadau mewnol.

Y Dderbynfa Gyhoeddus

- 6.4 Mae'r mwyafrif helaeth o'n cysylltiadau â chwsmeriaid yn digwydd ar lein neu trwy gysylltiadau post. Mae staff derbynfydd TC yn gallu cynnig cyfarchion yn Gymraeg, ac mae arwydd clir i hysbysu ymwelwyr fod gwasanaeth Cymraeg ar gael ar gais. Mae gan staff y dderbynfa restr o staff sy'n medru'r Gymraeg y gallant gysylltu â nhw os gwneir cais. Fodd bynnag, ni ofynnodd unrhyw ymwelwyr am gael trafod busnes TC yn Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd.

Llinell gymorth dros y ffôn

- 6.5 Rydym wedi parhau i ddarparu un rhif ffôn allanol dynodedig ar gyfer cwsmeriaid Cymraeg. Cafwyd oddeutu 2 alwad y mis yn ystod y cyfnod adrodd.

7. Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth Iaith

Mae Tŷ'r Cwmnïau wedi parhau i hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu'r Gymraeg i'n staff:

- 7.1 Mae TC yn cynnig cyfleoedd i ddysgu Cymraeg i'w holl staff yn unol â'i Gynllun Addysg i Oedolion. Mae'r sefydliad wedi rhoi cefnogaeth lwyr i bawb sydd wedi manteisio ar y cyfle hwn trwy dalu costau eu cyrsiau ac unrhyw arholiadau, a thrwy ganiatáu amser iddynt astudio. Anogir staff i gofrestru ar gyfer cyrsiau trwy eu Canolfannau Cymraeg i Oedolion a'u Prifysgolion lleol.
- 7.2 Cyflawnwyd gwaith i symud i gyfeiriad dulliau o ddysgu Cymraeg a fydd yn canolbwyntio ar ddysgu digidol, a chyfeirio cydweithwyr ar ddysgu ar lein neu trwy apiau (e.e. Duolingo neu learnwelsh.cymru). Byddwn yn parhau i ddarparu cyllid yn hynny o beth.
- 7.3 Mae cyfleoedd dysgu ffurfiol ar gyfer aelodau staff yn cynnwys 'Sadwrn Siarad' a chysiau preswyl 5 diwrnod o hyd.
- 7.4 Mae TC yn parhau i hyrwyddo a chefnogi diwrnodau gwirfoddoli, ac rydyn ni'n credu bod y rhain yn ffordd gadarnhaol o gyfrannu at y gymuned leol wrth ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg.
- 7.5 Lluniodd ein tîm Cyfathrebu Mewnol gynllun i godi ymwybyddiaeth am gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn TC yn chwarterol gyda chyflwyniadau arbennig am ddyddiadau cofrestru.
- 7.6 Mae gan TC dudalen Gymraeg benodol y gellir ei chyrchu trwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol.
- 7.7 Bydd TC yn parhau i fonitro defnydd, ac yn cadw llygad ar effeithiolwyd y dull yma o weithredu.

8. Technoleg Gwybodaeth

Ni chafodd unrhyw systemau TG eu hasesu gan ddefnyddio cynllun achredu meddalwedd ddwyieithog y Bwrdd; mae cynnwys Cymraeg yn rhywbeth rydyn ni'n dewis ei ymgorffori.

9. Gweinyddu'r Cynllun

Nifer y cwynion a gafwyd am ddiffyg darpariaeth gwasanaethau yn Gymraeg a'r camau a gymerwyd i ddatrys y cwynion:

- 9.1 Yn ystod y cyfnod adrodd yma, cysylltodd cwsmeriaid â TC ar 4 achlysur ynghylch ei Wasanaeth Cymraeg. Mae'r ffigur yma'n is na'r cyfnod adrodd diwethaf a welodd 8 cwyn. Mae crynodeb o'r achosion hyn isod:
- 9.2 Ar ddau achlysur gwahanol, cyflwynodd cwsmeriaid fersiwn o ffurflen ddwyieithog oedd wedi cael ei gosod ar ein gwefan trwy gamgymeriad. Cafodd y ffurflenni eu gwrthod yn sgil hynny. Rhoddwyd ymddiheuriad i'r cwsmeriaid, proseswyd y ffurflenni cywir a diweddarwyd y wefan.
- 9.3 Ffeiliodd cwmni ei gyfrifon yn Gymraeg a Saesneg yr un pryd. Oherwydd gwall gweinyddol, ni chydnabuwyd bod y cyfrifon Cymraeg a Saesneg yn perthyn i'r un cwmni, ac o ganlyniad, cafodd y cyfrifon eu prosesu ar wahân. Cafodd y cyfrifon Saesneg eu ffeilio ar ein systemau, ond gwrthodwyd y cyfrifon Cymraeg fel copi dyblyg. Ymddiheurodd TC yn ffurfiol, a rhoddwyd pwynt cyswllt penodol i'r cwsmer ar gyfer ffeilio cyfrifon yn y dyfodol.
- 9.4 Cyflwynodd cwmni ei gyfrifon yn electronig yn Saesneg wrth gyflwyno cyfrifon papur yn Gymraeg. Dadleuodd y cwmni ei fod wedi gwneud hynny am nad oedd yn gallu ffeilio cyfrifon dwyieithog ar lein. Cafodd y mater ei ddatrys er boddhad y cwmni.

10. CASGLIAD

- 10.1 Bydd Pwyllgor y Gymraeg yn parhau i sicrhau bod TC yn dal i fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan y Cynllun Iaith Gymraeg. Rydyn ni wedi ymrwymo o hyd i ddarparu gwasanaeth Cymraeg rhagorol ar gyfer ein cwsmeriaid.

Tŷ'r Cwmnïau - Cynllun Gweithredu

Camau Angenrheidiol	Dyddiad targed	Perchennog	Cynnydd hyd yn hyn / nodiadau
1. Deddfwriaeth a Mentrau			
Adolygu'r Cynllun Gweithredu pob chwarter	Bob Chwarter	Strategaeth a Pholisi	Adolygwyd cynnwys y Cynllun Gweithredu fel rhan o waith Pwyllgor y Gymraeg a gyfarfu yn chwarterol yn 2019/20.
Adolygu'r Cynllun Strategol pob chwarter i gyd-fynd â'r Cynllun Gweithredu ar yr iaith Gymraeg	Bob Chwarter	Strategaeth a Pholisi	Mae ein hymrwymiad i wasanaethau Cymraeg yn sail i ddau o'n nodau strategol allweddol: <i>Rhagoriaeth o ran cofrestru a chwilio am gwmnïau a Chreu diwylliant o berfformiad da.</i>
Ystyried sut y bydd polisiau, prosiectau a datblygiadau newydd yn cydymffurfio â'r ymrwymadau a nodir yn y Cynllun Iaith Gymraeg	Yn parhau	Strategaeth a Pholisi	Rydyn ni wedi parhau a byddwn yn parhau, i ystyried ein Cynllun Iaith wrth gychwyn polisiau, projectau a datblygiadau newydd.
Galluogi cwmnïau Cymreig i fwynhau "Profiad Cymraeg" wrth gorffori	Hydref 2012	Cyflawni Atebion Busnes	Cwblhawyd hyn yn Hydref 2012.
Galluogi corffori ar-lein llawn i gwmnïau Cymreig yn Nhŷ'r Cwmnïau	Mawrth 2013	Cyflawni Atebion Busnes	Cwblhawyd hyn ar 6 Ebrill 2013.

Gwella'r gwasanaeth Newid Enw ar WebFiling er mwyn cynhyrchu cyfieithiad o'r dystysgrif (sy'n cael ei hadolygu ar hyn obryd). Cyflawni ar gyfer Cwsmeriaid)	Mawrth 2013	Y Gyfarwyddiaeth Cyflawni ar gyfer Cwsmeriaid	Wrth ini ddatblygu gwasanaeth beta TC ymhellach ar gyfer cwsmeriaid, bydd TC yn datblygu rhagor o wasanaethau sy'n defnyddio'r Gymraeg o ddechrau'r broses i'w diwedd. Fodd bynnag, nid yw'r amserlen ar gyfer gwneud hyn yn glir ar hyn o bryd.
2. Staffio			
Cynnal yr hyfforddiant iaith cyfredol, gan dargedu sgiliau Cymraeg llafar	Yn parhau	Adnoddau Dynol	Paragraff 7 o'r adroddiad
Sicrhau bod staff sy'n medru'r Gymraeg yn yr holl brif feysydd gweithredol er mwyn darparu gwasanaeth ar gyfer cwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg	Yn parhau	Cyfarwyddwyr	Mae TC yn sicrhau bod staff sy'n medru'r Gymraeg ar gael ym mhob maes er mwyn archwilio gwybodaeth sy'n cael ei ffeilio yn Gymraeg ac ymateb i gwsmeriaid yn Gymraeg.
Hyrwyddo'r hyn sy'n ofynnol o TC o dan y Cynllun Iaith yn fewnol, gan sicrhau bod staff yn deall eu cyfrifoldebau ac yn gwybod ble i droi am gymorth.	Yn parhau	Strategaeth a Pholisi	Defnyddiwyd y safle mewnwyd yn rheolaidd i dynnu sylw ein staff at ein hymrwymiad i'n Cynllun Iaith.
Cynnal tîm Cymraeg yn TC i ddarparu gwasanaeth i gwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg a chynnal cyfarfodydd rheolaidd i drafod problemau a chynnydd.	Yn parhau	Cyflawni ar gyfer Cwsmeriaid	Mae tîm y Gymraeg wedi parhau i fod ar gael ac wedi cyfarfod yn rheolaidd.
3. Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd, hysbysebion a datganiadau i'r wasg			

Sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn mynychu pob digwyddiad yng Nghymru lle mae presenoldeb gan TC.	Yn parhau	Y Tîm Digwyddiadau	Nid yw TC bellach yn cynnal digwyddiadau hyrwyddol yn rheolaidd.
Sicrhau bod deunydd darllen Cymraeg ar gael mewn digwyddiadau a gynhelir yng Nghymru	Yn parhau	Y Tîm Digwyddiadau	Cwblhawyd

Sicrhau bod hysbysebion a datganiadau i'r wasg sy'n cael eu cyhoeddi yng Nghymru ar gael yn Gymraeg	Yn parhau	Adnoddau Dynol/TGCh	Lle cyhoeddir hysbysebion swyddi yn y wasg Gymraeg maent yn ddwyieithog, fodd bynnag nid oes cyfleuster ar gyfer hysbyseb swydd ddwyieithog ar wefan swyddi'r Gwasanaeth Sifil.
--	-----------	---------------------	---

4. Cyhoeddiadau a ffurflenni

Sicrhau bod holl gyhoeddiadau Cymraeg TC yn cael eu diweddarau'r un pryd â'r fersiynau Saesneg	Yn parhau	Strategaeth a Pholisi	Mae TC yn parhau i sicrhau bod cyhoeddiadau Cymraeg yn cael eu diweddarau yr un pryd â'r cyhoeddiadau Saesneg.
Sicrhau bod yr holl ffurflenni statudol Cymraeg yn cael eu diweddarau'r un pryd â'r fersiynau Saesneg	Yn parhau	Strategaeth a Pholisi	Mae TC yn dal i sicrhau bod ffurflenni Cymraeg yn cael eu diweddarau ar yr un pryd â ffurflenni Saesneg.
Monitro defnydd o lythyrau er mwyn sicrhau bod fersiynau Cymraeg yn cael eu defnyddio pan fo hynny'n briodol	Yn parhau	Datblygu Newid Busnes	Mae TC yn dal i fonitro'r defnydd o lythyrau er mwyn sicrhau y darperir ateb yn Gymraeg lle bo angen. Drwy gydol y cyfnod mae ein tîm Cymorth Cyflawni i Gwsmeriaid wedi adolygu'r ddarpariaeth o lythyrau Cymraeg gennym ni

5. Gwefannau			
Sicrhau bod y wefan Gymraeg yn cael ei diweddarau'r un pryd â'r fersiwn Saesneg, pan fo hynny'n briodol, a bod y wybodaeth ar y wefan Gymraeg yn gyfoes.	Yn parhau	Cyfathrebu allanol	Parhawyd i gynyddu'r cynnwys Cymraeg ar GOV.UK
6. Cyfarfodydd wyneb yn wyneb			
Sicrhau bod modd i gwsmeriaid ofyn am gael siarad â siaradwr Cymraeg os ydynt am gynnal eu busnes yn Gymraeg	Yn parhau	Gwasanaethau i Gwsmeriaid	Mae TC yn parhau i gynnig y gwasanaeth hwn, ond ni chafwyd unrhyw geisiadau amdano yn ystod y cyfnod adrodd
7. Cyfathrebu ar y ffôn			
Sicrhau bod modd i gwsmeriaid sydd am gynnal eu busnes yn Gymraeg ofyn (yn Saesneg) am gael siarad â siaradwr Cymraeg	Yn parhau	Gwasanaethau i Gwsmeriaid	Paragraff 6.2 o'r adroddiad
8. Arwyddion			
Sicrhau bod yr holl arwyddion cyhoeddus yn swyddfa Caerdydd yn ddwyieithog	Yn parhau	Gwasanaethau'r Adeiladau	Cynhyrchir yr holl arwyddion cyhoeddus yn ddwyieithog
9. Cwynion			
Sicrhau bod cwynion am wasanaethau Cymraeg TC yn cael eu harchwilio'n fanwl ac yn cael eu datrys yn brydlon, a hynny'n unol â threfn gwynion arferol TC	Yn parhau	Gwasanaethau i Gwsmeriaid	Paragraff 9 o'r adroddiad

Monitro'r cwynion am wasanaethau dwyieithog	Yn parhau	Gwasanaethau i Gwsmeriaid	Mae'r Ymgynghorydd Gwasanaethau Cymraeg yn monitro'r holl gwynion am y gwasanaeth dwyieithog yn unol â Pharagraff 9 o'r adroddiad